

# Tystysgrif Her Sgiliau (Bagloriaeth Cymru)

## Addasiadau i asesiadau 2021

## Addasiadau i gymwysterau Tystysgrif Her Sgiliau yn 2020/21

Mae pandemig coronafeirws (COVID-19) wedi arwain at amhariad i addysg a hyfforddiant yn ystod gwanwyn a haf 2020. Mae cyfyngiadau iechyd y cyhoedd yn debygol o fod yn eu lle yn ystod 2020/21, a gall amhariad pellach ddigwydd mewn rhai lleoedd, a all effeithio ar addysgu a dysgu a darparu asesiadau.

Er mwyn gwneud iawn am yr amhariad i'r addysgu, dysgu ac asesu'r Dystysgrif Her Sgiliau, cytunwyd ar y trefniadau canlynol gyda Cymwysterau Cymru ar gyfer ymgeiswyr sy'n **cwblhau** eu cymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau yn Haf 2021:

- rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r Her Menter a Chyflogadwyedd **a'r** Project Unigol
- yn ogystal, rhaid i ymgeiswyr gwblhau **naill ai'r** Her Dinasyddiaeth Fyd-eang **neu** Her y Gymuned<sup>1</sup>.

Bydd y Dystysgrif Her Sgiliau yn cael ei dyfarnu yn seiliedig ar berfformiad yr ymgeisydd yn y cydrannau a gwblhawyd a defnyddir hyn hefyd i gyfrifo perfformiad disgwylidig yr ymgeisydd yn y gydran nad yw'r ymgeisydd wedi'i chwblhau.

Wrth benderfynu pa gydrannau ddylai fod yn orfodol i'w hardystio yn 2021, rhoddwyd ystyriaeth i sicrhau dibynadwyedd a dilysrwydd y cymwysterau ar lefel Safon Uwch ac ar lefel Cenedlaethol/Sylfaen, yn ogystal â chynnal cymaroldeb canlyniadau â'r rhai o flynyddoedd eraill.

Mae'r gofyniad i gwblhau'r Project Unigol a'r Her Menter a Chyflogadwyedd yn sicrhau bod pob sgîl yn cael ei asesu'n benodol, ac mae hefyd yn cadw elfen gwaith tîm y cymhwyster sydd wedi'i amlygu fel cryfder gan addysg bellach ac uwch a chan gyflogwyr. Mae'r her Menter a Chyflogadwyedd yn dasg tîm orfodol ar lefel Cenedlaethol/Sylfaen ac ar lefel Safon Uwch mae'r rhan fwyaf yn cwblhau'r dasg Menter Arloesi mewn tîm. Yn y gorffennol, hyd yn oed lle roedd ymgeiswyr wedi dewis gweithio'n unigol, roedd disgwyl iddyn nhw weithio gydag eraill ar rhyw gam wrth gwblhau'r gweithgaredd. Ar gyfer asesu yn 2020/21, bydd hyn yn ofynnol.

Yn ogystal â'r gostyngiad yn nifer y cydrannau y mae eu hangen ar gyfer ardystio yn Haf 2021, gwnaed addasiadau pellach i'r asesu ym mis Ionawr a mis Mai 2021. Mae'r addasiadau hyn wedi cael eu cynllunio'n ofalus yn unol â'r egwyddorion a bennwyd gan Cymwysterau Cymru:

1. Rhaid i CBAC geisio sicrhau nad yw dysgwyr yn cael mantais nac yn cael anfantais o gymharu â'u cyfoedion mewn awdurdodaethau eraill.
2. Rhaid i CBAC geisio sicrhau bod pob cymhwyster yn arwydd dibynadwy o'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth a bennir yn y cymhwyster yn dilyn unrhyw addasiadau i asesiadau.
3. Rhaid i CBAC geisio sicrhau nad yw cynnwys cymwysterau, yn gyffredinol, yn cael ei leihau; fodd bynnag, gellir ailstrwythuro cynnwys fel y gellir ei symleiddio'n rhesymol, megis mewn perthynas ag unedau dewisol.
4. Rhaid i CBAC geisio sicrhau bod hydrinedd asesiad yn cael ei gynyddu i'r eithaf, lle bydd hyn yn caniatáu cynnydd yn yr amser addysgu er mwyn lleihau'r effaith ar ganlyniadau.
5. Rhaid i CBAC geisio cynnal safonau, cyn belled ag y bo modd, o fewn yr un cymhwyster yn unol â blynyddoedd blaenorol.
6. Rhaid i CBAC geisio cynnal safonau, cyn belled ag y bo modd, ar draws cymwysterau tebyg sydd ar gael gan CBAC a chan gyrff dyfarnu eraill.
7. Rhaid i CBAC geisio sicrhau bod hyblygrwydd wrth ddarparu asesiadau yn cael ei gynyddu i'r eithaf er mwyn lleihau effaith aflonyddwch, salwch neu gwarantyn, gan gynnwys cyfyngiadau symud ar lefel leol.

---

<sup>1</sup> Rydym yn gwybod bod lleiafrif o ymgeiswyr wedi cwblhau Her y Gymuned a Her Dinasyddiaeth Fyd Eang yn 2019/20. Dylai canolfannau sydd ag ymgeiswyr yn y categori hwn ac sydd â phryderon am y gofynion ardystio ar gyfer 2020/21 gysylltu ag adran Bagloriaeth Cymru yn y lle cyntaf.

Mae asesiadau 2021 wedi'u cynllunio i sicrhau y canlynol:

- ni chaiff dilysrwydd a dibynadwyedd eu tanseilio gan yr addasiadau
- caiff pob un o'r sgiliau sylw penodol ar draws y cymhwyster
- cedwir cydbwysedd yn yr asesiad o sgiliau
- bod asesiadau'n targedu'r ystod lawn o raddau sydd ar gael yn y cymhwyster.

Mae'r addasiadau a gyhoeddir yn y llyfryn hwn yn berthnasol i **bob ymgeisydd** a gofrestrir ar gyfer asesiadau cydrannau ym mis Ionawr a mis Mai 2021.

### **Ymgynghoriad ar yr addasiadau arfaethedig**

Cyn penderfynu'n derfynol ar yr addasiadau hyn, buom yn ymgynghori â chanolfannau yng Nghymru drwy grwpiau ffocws a digwyddiadau briffio a fynychwyd gan dros 200 o athrawon a staff canolfannau sy'n ymwneud â chyflwyno'r cymwysterau yn ogystal â thrwy ymgynghoriad byr ar-lein. Gofynnwyd i'r canolfannau i ba raddau roeddent yn cytuno bod ein haddasiadau arfaethedig yn:

- briodol i wneud iawn am yr amser addysgu a dysgu a gollwyd
- helpu i leddfu materion yn ymwneud ag ymbellhau cymdeithasol ar gyfer gwaith grŵp a gwaith ymarferol
- tebygol o alluogi dysgwyr i symud ymlaen i ddysgu pellach e.e. ar Lefel 3
- cynnal uniondeb y cymhwyster.

Roedd 76% o ymatebwyr yr arolwg yn cytuno bod yr addasiadau yn briodol i wneud iawn am yr amser addysgu a dysgu a gollwyd a chytunodd 63% y byddent yn lleddfu materion sy'n gysylltiedig ag ymbellhau cymdeithasol ar gyfer gwaith grŵp.

Roedd 93% yn cytuno y byddai'r cynigion yn cadw'r cynnwys a'r sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer dilyniant ac roedd 84% yn cytuno bod y cynigion yn cynnal lefel y galw yn y cymwysterau. Yn olaf, cytunodd 80% nad oedd y cynigion yn rhoi mantais i ddysgwyr nac yn eu rhoi dan anfantais o gymharu â dysgwyr a oedd yn cwblhau cymwysterau cyfwerth.

## Addasiadau i'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch

Roedd llawer o ganolfannau wedi lleihau oriau wedi'u hamserlennu ym Mlwyddyn 13 gan fod dysgwyr yn gallu cwblhau llawer o'r Project Unigol y tu allan i'r ystafell ddosbarth a gallai hyn effeithio ar gwblhau asesiadau ar gyfer yr Heriau.

Rydym felly wedi tynnu'r gofyniad am oruchwyliaeth uniongyrchol o dasgau penodol o fewn y tair Her er mwyn caniatáu i ymgeiswyr gwblhau mwy o'u hasesiad o bell. Yn ogystal, mae'r dasg cyflwyno ym mhob Her wedi'i haddasu i dynnu'r gofyniad i athrawon arsylwi cyflwyniadau.

Gan y bydd angen i lawer o ganolfannau gwblhau'r Her Menter a Chyflogadwyedd Uwch yn 2020/21, mae'r amser sy'n ofynnol ar gyfer y Fenter Arloesi wedi'i leihau o draean. Dylai canolfannau gyfeirio at [Adroddiad y Prif Gymedrolwyr \(Ionawr 2020\)](#) er mwyn sicrhau bod yr amser a ganiateir ar gyfer yr Her hon yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol gan ymgeiswyr.

### Project Unigol – 50%

Does dim newidiadau i'r gydran hon.

### Her Menter a Chyflogadwyedd – 20%

Tasg 1 – Mae'r gofyniad am oruchwyliaeth uniongyrchol wedi'i dynnu; mae cyfyngiad o 1 tudalen A4 eisoes.

Tasg 2 – Mae'r amser a neilltuir ar gyfer y dasg hon wedi'i leihau i 20 awr dros 5 wythnos. Disgwylir i ymgeiswyr weithio gydag eraill ar ryw gam yn y gweithgaredd (h.y. cwblhau tasg tîm)

Tasg 3 – Does dim newidiadau i'r dasg hon.

Tasg 4 – Mae'r gofyniad i athrawon arsylwi ar y cyflwyniad wedi'i dynnu fodd bynnag mae'n dal yn ofynnol i ymgeiswyr baratoi tystiolaeth ar ei gyfer.

### Her Dinasyddiaeth Fyd-eang – 15%

Tasg 1 – Mae'r gofyniad am oruchwyliaeth uniongyrchol wedi'i dynnu; mae cyfyngiad o 1000 o eiriau eisoes.

Tasg 2 – Does dim newidiadau i'r dasg hon.

Tasg 3 – Mae'r gofyniad am oruchwyliaeth uniongyrchol wedi'i dynnu ond bydd cyfyngiad o 500 o eiriau yn cael ei gyflwyno.

### Her y Gymuned – 15%

Tasg 1 – Mae'r gofyniad am oruchwyliaeth uniongyrchol wedi'i dynnu ond bydd cyfyngiad o 2,000 o eiriau yn cael ei gyflwyno.

Tasg 2 – Does dim newidiadau i'r dasg hon.

Tasg 3 – Bydd y gofyniad i athrawon arsylwi ar y cyflwyniad yn cael ei dynnu fodd bynnag mae'n dal yn ofynnol i ymgeiswyr baratoi tystiolaeth ar ei gyfer.

## Addasiadau i'r Dystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol/Sylfaen

Fel gyda'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch, rydym wedi tynnu'r gofyniad am oruchwyliaeth uniongyrchol o lawer o'r tasgau. Bydd hyn yn caniatáu i ganolfannau ailddyrannu gwersi wedi'u hamserlennu fel y bo'n briodol a chaniatáu i ymgeiswyr gwblhau rhywfaint o'r asesiad y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Oherwydd yr amser sylweddol sy'n ofynnol i athrawon arsylwi pob tîm o 3-6 o ddysgwyr yn cyflwyno cynnig syniad yn yr her Menter a Chyflogadwyedd ar gyfer y grŵp blwyddyn cyfan ac, mewn llawer o achosion, dau grŵp blwyddyn cyfan (blwyddyn 10 newydd a blwyddyn 11 sy'n parhau), mae hyn wedi cael ei dynnu er mwyn rhyddhau amser athrawon yn yr ystafell ddosbarth.

### **Project Unigol – 50%**

Does dim newidiadau i'r gydran hon.

### **Her Menter a Chyflogadwyedd – 20%**

Tasg 1 – Bydd y gofyniad am oruchwyliaeth uniongyrchol yn cael ei dynnu ond bydd cyfyngiad o 1 dudalen A4 yn cael ei gyflwyno.

Tasg 2 – Bydd y gofyniad am oruchwyliaeth uniongyrchol yn cael ei leihau o 17 i 5 awr.

Tasg 3 – Bydd y gofyniad i ddysgwyr gyflwyno eu cynnig syniad yn cael ei dynnu fodd bynnag mae'n dal yn ofynnol i ymgeiswyr baratoi tystiolaeth ar gyfer cynnig syniad.

Tasg 4 – Bydd y gofyniad am oruchwyliaeth uniongyrchol yn cael ei dynnu ond bydd cyfyngiad o 1 dudalen A4 neu recordiad llafar 5 munud yn cael ei gyflwyno.

### **Her Dinasyddiaeth Fyd-eang – 15%**

Tasg 1 – Bydd y gofyniad am oruchwyliaeth uniongyrchol yn cael ei leihau o 5 i 3 awr.

Tasg 2 – Bydd y gofyniad am oruchwyliaeth uniongyrchol yn cael ei dynnu; bydd yn ofynnol i ymgeiswyr gwblhau'r dasg hon yn unigol.

Tasg 3 – Bydd y gofyniad am oruchwyliaeth uniongyrchol yn cael ei dynnu a chyflwynir cyfyngiad o 1 tudalen A4 neu recordiad llafar 5 munud.

### **Her y Gymuned – 15%**

Tasg 1 – Bydd y gofyniad am oruchwyliaeth uniongyrchol yn cael ei dynnu a bydd cyfyngiad o 1 tudalen A4 yn cael ei gyflwyno.

Tasg 2 – Does dim newidiadau i'r dasg hon.

Tasg 3 – Does dim newidiadau i'r dasg hon.

Tasg 4 – Bydd y gofyniad i gael goruchwyliaeth uniongyrchol yn cael ei dynnu a bydd cyfyngiad o un dudalen A4 neu recordiad llafar 5 munud yn cael ei gyflwyno.